**PWYLLGOR Y TŶ**

**Y Newyddion Diweddaraf ynghylch Cysylltiadau Allanol**

**1. Adolygiad o Weithgareddau ers 17 Mehefin 2004.**

a. **Yr Eidal, 29-30 Mehefin 2004.** Ymwelodd dirprwyaeth o Bwyllgor Amaethyddiaeth Senedd Ranbarthol Twsgani ar 29 Mehefin 2004. Roedd eu rhaglen yn cynnwys cyfarfodydd ag aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ac ymweliadau â Choleg Fferm Gelli-aur a ffermydd o amgylch ardal Caerfyrddin.

b. **Norwy, 30 Mehefin 2004.** Ymwelodd dirprwyaeth o seneddwyr o Störting Norwy ar 30 Mehefin 2004 fel rhan o ymweliad wythnos â Chymru i astudio Saesneg. Cyfarfu'r ddirprwyaeth â'r Llywydd ac ag Aelodau'r Cynulliad yn Siambr y Cynulliad.

c. **Ynys Manaw, 2-6 Gorffennaf 2004.** Bu Lisa Francis AC yn bresennol yn seremoni flynyddol Tynwald ar Ynys Manaw ar ran Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

d. **Y Deyrnas Unedig, 6 Gorffennaf 2004.** Anerchodd Yr Arglwydd Woolf, Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, yr Aelodau yn Siambr y Cynulliad yn union cyn y Cyfarfod Llawn.

e. **Awstralia, 12-13 Gorffennaf 2004.** Ymwelodd grŵp o bedwar Rhingyll dan Arfau o seneddau cenedlaethol a gwladol Awstralia â'r Cynulliad yn ystod ymweliad â'r DU i fod yn bresennol mewn cynhadledd seneddol.

f. **Sweden, 12 ac 19 Awst 2004.** Bu i ddau grŵp o seneddwyr o Sweden a oedd yn astudio Saesneg yng Nghymru yn ystod eu toriad haf ymweld â'r Cynulliad. Aethpwyd â'r ddwy ddirprwyaeth ar daith o amgylch Siambr y Cynulliad a Glanfa'r Cynulliad a chawsant gyfle i gyfarfod yn anffurfiol ag Aelodau'r Cynulliad.

g. **Canada, 1-9 Medi 2004.** Ymwelodd Alun Cairns AC ac Elin Jones AC â Chynhadledd Flynyddol 2004 Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Quebec a Toronto er mwyn cynrychioli Cangen Cymru o'r Gymdeithas.

h. **Yr Almaen, 8 Medi 2004.** Ymwelodd grŵp astudio Saesneg o senedd ranbarthol Bafaria â'r Cynulliad am ddiwrnod. Roedd rhaglen eu hymweliad yn cynnwys cyfarfodydd anffurfiol â'r Llywydd ac ag Aelodau'r Cynulliad.

i. **Gogledd Iwerddon ac Iwerddon, 14-15 Medi 2004.** Ymwelodd Dai Lloyd AC â Belfast a Dulyn fel rhan o ymchwiliad Pwyllgor yr

Amgylchedd a Materion Cymdeithasol Y Corff Rhyngseneddol Prydeinig-Gwyddelig ynghylch addysg anghenion arbennig.

j. **Awstralia, 20-21 Medi 2004.** Ymwelodd Ray Hollis AS, Llefarydd Senedd Queensland, â'r Cynulliad o fewn ymweliad ehangach â sefydliadau seneddol y DU. Roedd gan y Llefarydd ddiddordeb arbennig yn nefnydd y Cynulliad o TGCh ac yn y Cofnod o'r Trafodion.

2. **Rhagolwg.**

a. **Awstralia, 4-5 Hydref 2004.** Ian Harris, Clerc Tŷ'r Cynrychiolwyr Senedd Awstralia a Llywydd Cymdeithas Ysgrifenyddion Cyffredinol Seneddau. Bydd y rhaglen yn cynnwys seminar ar gyfer staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

b. **Ffrainc, 12-13 Hydref 2004.** Bydd Llywydd Cyngor Rhanbarthol Llydaw yn ymweld yn unol â gwahoddiad Prif Weinidog Cymru. Bydd y Llywydd yn annerch yr Aelodau yn Siambr y Cynulliad cyn y Cyfarfod Llawn fel rhan o raglen ei ymweliad.

c. **Y Deyrnas Unedig / Iwerddon, 17-19 Hydref 2004.** Cynhelir wythfed ar hugain Sesiwn Llawn Corff Rhyngseneddol Prydeinig-Gwyddelig yng Nghas-gwent. Bydd dirprwyaeth o'r Cynulliad yn bresennol. Bydd y Sesiwn yn cynnwys dadl ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus a agorir gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

d. **Mecsico, 20 Hydref 2004.** Bydd dirprwyaeth o Bwyllgor Ffederaliaeth Senedd Mecsico yn ymweld â'r Cynulliad fel rhan o daith astudio sefydliadau seneddol y DU. Byddant yn ymweld â'r Cynulliad ar gais Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

e. **Yr Eidal, 24-26 Hydref 2004.** Bydd Y Llywydd yn bresennol yng Nghyfarfod Llawn Cynhadledd Llywyddion Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop yn Milan.

f. **Yr Almaen, 16-17 Tachwedd 2004.** Bydd dirprwyaeth o 6-8 aelod ifanc o senedd ranbarthol Hambwrg yn ymweld â'r Cynulliad. Mae eu diddordebau'n cynnwys adnewyddu trefol, addysg a dysgu gydol oes a datganoli.

**g.** **Cuba, 19 Tachwedd 2004.** Derbyniwyd cais oddi wrth Lysgenhadaeth Cuba i ddirprwyaeth o Grŵp Cyfeillgarwch Senedd y DU â Cynulliad Cenedlaethol Cuba i ymweld â'r Cynulliad. Bydd rhaglen eu hymweliad â'r DU yn cynnwys cyfarfodydd â'r grwpiau Pob Plaid ar Cuba yn Seneddau'r Deyrnas Unedig a'r Alban.

**PJP Kellam**
**22 Medi 2004**